Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Adroddiad ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

**Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y Fro trwy:**

- **Gynyddu capasiti Ysgol Y Deri i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a**
- **Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth Ysgol Y Deri.**

Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille.
Gellir trefnu hefyd bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 709828 i drefnu hyn.

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Cefndir | **3** |
| Amlinelliad o’r broses ymgynghori | **3** |
| Ymatebion i’r ymgynghoriad | **5** |
| Casgliad | **8** |
| Atodiad A – Crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol a’r ymateb i’r materion hynny | **11** |
| Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig | **19** |
| Atodiad C – Cwestiynau cyffredin | **22** |
| Atodiad D – Ymateb gan Estyn | **23** |
| Atodiad E - Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant | **26** |
| Atodiad F – Ymateb gan gorff llywodraethu Ysgol Y Deri | **29** |
| Atodiad G – Ymateb gan Gyngor Tref Penarth | **31** |

## Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng **6 Tachwedd 2020** a **20 Rhagfyr 2020**, mewn ymateb i gynnig y Cyngor i drawsnewid addysg arbennig trwy;

- **Gynyddu capasiti YYD i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a**
- **Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023, a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth YYD.**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses ymgynghori, yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig manylion pellach am y materion allweddol a'r sylwadau ffafriol a godwyd gan randdeiliaid.

## Amlinelliad o'r broses ymgynghori

Roedd y prosesau ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y prosesau ymgynghori'n rhoi'r cyfle i ymgyngoreion penodedig ddysgu am y cynnig ac i Gabinet y Cyngor glywed barn pawb sydd â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud.

**Cyhoeddi'r ymgynghoriad**
Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgyngoreion penodedig ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 6 Tachwedd 2020. Cafodd ymgyngoreion ddolen mewn neges e-bost hefyd a oedd yn mynd â hwy at wefan Cyngor Bro Morgannwg. Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais hefyd.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori'n ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi'r cynnig a oedd dan ystyriaeth, y rhesymeg dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Cafodd ymgyngoreion eu hysbysu ynghylch argaeledd fersiwn ar-lein i'w chwblhau.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad**
Cafodd gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig ei gyflawni gydag ymgyngoreion penodedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fe ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Staff ( sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn YYD | Corff Llywodraethu YYD |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu YYD | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |

| | |
|---|---|
| Cynghorau Tref a Chymuned | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar (PDBC) Bro Morgannwg |
| Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg | Cynghorwyr Lleol |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad | Comisiynydd y Gymraeg |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ym Mro Morgannwg |
| Estyn | Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Undebau Llafur |
| Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throseddu | Cyfarwyddwyr Addysg –<br>Pob Awdurdod Cyfagos |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | |

Gwahoddwyd ymgyngoreion i gwblhau ffurflen ar gyfer ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad y gellid ei chwblhau ar ffurf copi caled neu ar-lein trwy wefan y Cyngor yn: **www.valeofglamorgan.gov.uk/whitmorespecialistresourcebase**

Yn sgîl goblygiadau parhaus y Coronafeirws, ni chynhaliwyd sesiynau galw heibio ar gyfer rhieni a'r gymuned er mwyn cyfyngu ar y rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, cafodd sianeli cyfathrebu agored eu cynnal trwy gydol yr ymgynghoriad dros y ffôn a thrwy'r e-bost. Cafodd y Cwestiynau Cyffredin eu diweddaru hefyd i adlewyrchu ymholiadau a godwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori (Atodiad C).

Rydym wedi ymdrechu i drefnu sesiwn ymgynghori gyda disgyblion, ond nid yw wedi bod yn bosibl i'r sesiwn hon ddigwydd oherwydd cyfyngiadau parhaus mewn ymateb i'r Coronafeirws. Roedd modd i ddisgyblion ymateb trwy'r ffurflen ar gyfer ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad, ond ni chafwyd unrhyw ymatebion. Byddwn yn amcanu at aildrefnu sesiwn ymgysylltu â disgyblion i gael ei chynnal gan gorff annibynnol yn ddiweddarach, os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig.

**Cwestiynau Ymgynghori**
Gofynnwyd i ymgyngoreion am eu barn ynglŷn â chwestiwn allweddol:

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbennig trwy:**

- **Gynyddu capasiti Ysgol Y Deri i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a**
- **Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth Ysgol Y Deri.**

Roedd yr ymgyngoreion yn gallu ymateb trwy ddweud Ydw, Nac ydw neu Ddim barn y naill ffordd na'r llall.

Cynigiwyd y cyfle i'r ymgyngoreion wneud sylwadau pellach:

**“Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle’r cynigion, nodwch y rhain isod.”**

**Unrhyw sylwadau eraill?”**

## Ymatebion i’r ymgynghoriad


Caiff yr ymatebion i’r ymgynghoriad a gafwyd yn ysgrifenedig rhwng 6 Tachwedd 2020 a 20 Rhagfyr 2020 eu nodi isod.

**Crynodeb o’r ymatebion**
Cafwyd 102 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau’r ymgynghoriad. O’r cyfanswm o 102 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 90 o blaid y cynnig, roedd 11 yn ei wrthwynebu, ac nid oedd 1 yn mynegi barn y naill ffordd na’r llall. Caiff y dadansoddiad o’r ymatebion ei nodi’n fanwl yn y tablau a’r siartiau isod.

Nodwyd na wnaeth yr holl ymgyngoreion ddarparu ymateb i bob un o’r cwestiynau a bod rhai ffurflenni heb eu cwblhau’n llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i’r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.

Fel y dengys tabl 1 a siart 1 isod, roedd 90 o’r ymatebwyr (88%) o blaid y cynnig, roedd 11 o’r ymatebwyr (11%) yn erbyn y cynnig, ac ni wnaeth 1 (1%) fynegi barn y naill ffordd na’r llall.

| **Tabl 1 – Dadansoddiad o’r ymatebion i’r ymgynghoriad** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebion (unigol:** | **Cyfanswm yn gefnogol** | | **Cyfanswm ddim yn gefnogol** | | **Cyfanswm â dim barn** | |
| Nifer | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 102 | 90 | 88% | 11 | 11% | 1 | 1% |





**Siart 1 – Rhaniad yr ymatebion a oedd yn gefnogol neu ddim yn gefnogol i'r cynnig, a'r ymatebion hynny â dim barn y naill ffordd na'r llall**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi eu rôl mewn perthynas â'r cynnig. Roedd ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Fel y dengys tabl 2 a siart 2 isod, roedd gan grwpiau o ymatebwyr farn gymysg ynglŷn â'r cynnig, tra bo consensws clir rhwng eraill. Dynododd y grŵp mwyaf o ymatebwyr mai aelodau o staff oeddent (82 o ymatebwyr – 98.78% o blaid, 1.22% heb farn y naill ffordd na'r llall), gyda phreswylwyr lleol yn dilyn wedyn (15 o ymatebwyr – 33.33% o blaid, 66.67% yn erbyn) ac yna rhieni neu warcheidwaid (9 ymatebydd – 66.67% o blaid, 33.33% yn erbyn). Roedd "Arall" (3 ymatebydd – 66.67% o blaid, 33.33% yn erbyn) yn cynnwys gweithwyr y GIG a Cyfeillion y Ddaear y Barri a'r Fro.

**Tabl 2 - Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl**

| **Ymateb yn ôl rôl:** | **Cefnogol** | **Ddim yn gefnogol** | **Dim barn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| **Rhiant neu warcheidwad** | 6 | 3 | 0 | 9 |
| **Taid neu Nain** | 0 | 3 | 0 | 3 |
| **Disgybl** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Aelod o staff** | 81 | 0 | 1 | 82 |
| **Llywodraethwr** | 6 | 0 | 0 | 6 |
| **Preswylydd Lleol** | 5 | 10 | 0 | 15 |
| **Arall** | 2 | 1 | 0 | 3 |




**Siart 2 – Rhaniad yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl**

**Ymatebion mewn manylder**

| Atodiad | Disgrifiad |
|---|---|
| **Atodiad A** | Mae crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny wedi'u cynnwys yn Atodiad A. |
| **Atodiad B** | Mae crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig wedi'i gynnwys yn Atodiad B. |
| **Atodiad C** | Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin wedi cael ei diweddaru i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad C). |
| **Atodiad D** | Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn ac mae i'w gael yn Atodiad D. |
| **Atodiad E** | Cyfeiriwyd y ddogfen ymgynghori at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 10 Rhagfyr 2020. Ceir cofnodion y cyfarfod hwn yn Atodiad E. |
| **Atodiad F** | Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan gorff llywodraethu Ysgol Y Deri ac mae i'w weld yn Atodiad F. |
| **Atodiad G** | Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Gyngor Tref Penarth ac mae i'w weld yn Atodiad G. |

## Casgliad

Yn dilyn ystyried yr ymatebion a gafwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r Cyngor wedi ailystyried y cynnig i bennu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

**Ansawdd a safonau mewn addysg**
Mae'n debygol y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau mewn addysg. Fel a nodwyd gan ymatebwyr, byddai ehangiad arfaethedig YYD yn galluogi rhagor o ddisgyblion i gael mynediad at addysg arbennig a hwythau'n rhai na fyddent yn cael mynediad fel arall.

Mae'r adeilad a'r safle newydd yn YYD wedi cael eu dylunio i ddiwallu anghenion ystod eang o ddisgyblion a byddent yn darparu mwy o fynediad at y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.

Byddai'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli gan bennaeth a chorff llywodraethu YYD. Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn golygu bod lle i hyd at 150 o ddysgwyr. Cynigir y byddai adeilad newydd yr ysgol yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2023. Byddai ystafelloedd dros dro'n cael eu rhoi yn eu lle i ateb y galw am leoedd i ddisgyblion a ragwelir yn y cyfamser.

Roedd ymateb Estyn yn nodi bod "y cynnig hwn yn annhebygol o gael effaith negyddol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal".

**Effaith ar y gymuned**
Cynhaliwyd a chyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol trwy fwy o gyfleusterau cymunedol.

Cynigir y byddai unrhyw wasanaethau cymunedol a ddarperir gan YYD ar hyn o bryd yn parhau ac y gellid ehangu ar y rhain yn y cyfleuster newydd. Caiff enghreifftiau o wasanaethau y mae YYD yn eu darparu ac a fyddai'n parhau ac y gellid ehangu arnynt o bosibl eu nodi isod:

- Big Lunch – mae disgyblion hŷn yn gweini cinio i 100 o aelodau o'r gymuned leol
- Mae Simon Jones – Uwch Swyddog Byw'n Iach (Chwaraeon Anabledd) – yn trefnu digwyddiadau chwaraeon gyda grwpiau'n dod i mewn i gynnig sesiynau untro sy'n debyg i Add Gorff (pêl-fasged cadair olwyn, pêl-droed cadair olwyn yn flaenorol) ac yn trefnu digwyddiadau chwaraeon cymunedol.
- Mae ffisiotherapyddion yn rhoi triniaeth i blant y gymuned yn rheolaidd yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau ysgol.
- Cynhaliwyd hyfforddiant yn YYD i weithwyr iechyd proffesiynol ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol
- Cynhelir clwb cadair olwyn Whizzkids yn yr ysgol yn ystod gwyliau ysgol
- Cynllun chwarae yn y gwyliau

Cafwyd un sylw ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw newid i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cael ei wneud o ganlyniad i'r sylw hwn (gweler yr adran materion

isod). Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn credu y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol (gweler yr adran sylwadau isod).

**Trefniadau teithio**
Byddai'r goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith. Byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hwn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys dadansoddiad llwybr ysgubedig i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau brys. Byddai'r asesiad trafnidiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a ganfyddir.

Byddai'r asesiad trafnidiaeth hefyd yn pennu'r gofyniad am gyfleusterau danfon a chasglu ar y safle ar gyfer trefniadau cludiant i'r ysgol. Byddai hefyd yn cael ei ddefnyddio i ganfod nifer y mannau parcio ceir y byddai eu hangen ar gyfer staff.

Gan bod prynu'r safle'n ddibynnol ar allu'r Cyngor i gael caniatâd cynllunio, bydd Cais Cynllunio Amlinellol yn cael ei gyflwyno. Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgynghoriad statudol â phreswylwyr lleol. Yn gyntaf, mae'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio'n caniatáu i breswylwyr ddarparu adborth ar y dyluniad arfaethedig, yn ogystal â'r asesiad trafnidiaeth, ar gyfer y contractwr. Fe lansiwyd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ar 4 Ionawr 2021. Wedyn byddai dyluniadau terfynol yn mynd trwy'r broses gynllunio ffurfiol. Byddai preswylwyr lleol yn cael eu hysbysu ynghylch y cais cynllunio a byddent yn gallu cyflwyno adborth a fyddai'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

Lle mae gan ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ofynion teithio penodol na ellir eu hateb ag addasiad rhesymol ar gludiant prif ffrwd, bydd eu cymhwystra'n cael ei bennu gan y Tîm ADY.

Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os yw asesiad wedi canfod bod ganddynt anawsterau dwys a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddosbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) a 3 milltir neu fwy (disgyblion oedran uwchradd) o gyfeiriad cartref eu rhiant a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY sy'n byw o fewn y terfynau o 2 a 3 milltir ar sail unigol, gan gydymffurfio ag Adran 9 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gan sicrhau tegwch ac y cydymffurfir â deddfwriaeth berthnasol ar gydraddoldeb i sicrhau nad oes unrhyw gamwahaniaethu rhwng dysgwyr. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad gyda'r holl bartïon perthnasol. Os nad yw disgybl yn gallu cerdded i'r ysgol (naill ai gyda chymorth oedolyn priodol neu'n annibynnol gan ddibynnu ar ei oedran/gallu) oherwydd natur ei anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, bydd y Cyngor yn darparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r terfyn statudol. Bydd y penderfyniad ynglŷn â hyn yn cael ei wneud gan y Tîm Cludiant Teithwyr ar y cyd ag ysgolion a'r Tîm Anghenion Cymhleth. Os yn bosibl, a chyda chytundeb y dysgwr, y rhiant/gofalwr, yr ysgol a'r Tîm Anghenion Cymhleth, gellir darparu hebryngwr, yn lle cludiant, i alluogi'r

disgybl i gyrraedd yr ysgol yn annibynnol. Mae hyn yn hybu dulliau teithio cynaliadwy ac yn rhoi anogaeth i fyw yn annibynnol yn ogystal â hybu iechyd a lles.

Darperir cludiant am ddim ar gyfer 229 o ddisgyblion yn YYD ar hyn o bryd. Ar y cyfan, mae 45 o gerbydau'n gwasanaethu'r safle presennol sy'n cynnwys y canlynol:

- Mae 5 cerbyd yn darparu cludiant ar gyfer mwy na 10 disgybl;
- Mae 5 cerbyd yn darparu cludiant ar gyfer rhwng 6 a 10 disgybl; ac
- Mae 35 o gerbydau'n darparu cludiant ar gyfer 5 disgybl neu lai.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai teithio llesol yn ystyriaeth bwysig o fewn dyluniad y safle i roi cymorth i wireddu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Byddai teithio llesol yn cael ei asesu fel rhan o'r broses gynllunio a nodir uchod. Byddai Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r contractwyr yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun teithio wedi'i ddiweddaru a fyddai'n cefnogi mesurau i gynyddu teithio llesol i'r ysgol.

## Atodiad A - Crynodeb o’r materion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol ac ymateb y Cyngor

Mae’r canlynol yn crynhoi’r materion allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae’r materion yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid ydynt wedi’u bwriadu i fod yn gofnod gair-am-air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i aelodau Cabinet.

**<u>Mater 1</u> – Materion sy’n gysylltiedig â’r dewis o safle:**

**1.1 Roedd ymatebwyr yn anghytuno â’r dewis o safle ar bwys y datblygiad tai newydd arfaethedig yn Cosmeston. Byddai’r safle’n cynyddu materion traffig ac yn lleihau mannau gwyrdd naturiol.**

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a godwyd:**

<u>Y dewis o safle</u>

Mae YYD yn rhan o Gymuned Ddysgu Penarth (CDdP) ochr yn ochr ag Ysgol Gyfun St Cyres ar hyn o bryd. Fe sefydlwyd CDdP o ganlyniad i fuddsoddiad o £50m i adeiladu cyfleusterau addysg tra modern. Nid yw’n bosibl cynyddu capasiti YYD ymhellach o gwbl ar y safle presennol oherwydd y lle allanol cyfyngedig sydd ar gael a’r effaith debygol y byddai hyn yn ei chael ar y seilwaith lleol o amgylch y safle. Mae tua 1,400 o ddysgwyr ar safle CDdP yn barod.

Y dull a ffefrir yw codi adeilad ysgol newydd ar safle ar wahân a fyddai’n rhan o YYD. Disgyblion o oedran cynradd fyddai’n mynychu’r adeilad ysgol ychwanegol yn bennaf. Fodd bynnag, byddai’r ysgol yn gweithredu dull seiliedig ar anghenion i bennu rhaniad disgyblion ar draws y ddau safle. Byddai hyn yn lleihau’r angen i ddyblygu’r holl gyfleusterau sydd ar gael yn YYD ar hyn o bryd.

Fe wnaeth y Cyngor ystyried ystod eang o safleoedd i ehangu Ysgol Y Deri. I ddechrau roedd hyn yn golygu ystyried safleoedd sy’n eiddo i’r Cyngor ac yna fe ehangwyd hynny gynnwys safleoedd a allai fod ar gael i’w prynu.

Ni chanfuwyd unrhyw safleoedd tir llwyd a oedd yn ateb y gofynion ar gyfer yr adeilad ysgol arfaethedig. Gan y byddai’r ysgol yn rhan o YYD, tybiwyd hefyd ei bod yn hanfodol bod yr adeilad yn agos at adeilad presennol YYD gan y byddai staff yn gweithio ar draws y ddau safle.

Mae’r Cyngor wedi adnabod safle a ffefrir sydd wedi’i leoli ar bwys y datblygiad arfaethedig ‘Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog’ sydd wedi cael ei ddyrannu fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig y Cyngor 2011-26. Mae’r ardal hon yn darparu digon o le i godi’r adeilad ysgol newydd arfaethedig ac mae oddeutu 3 milltir o safle presennol YYD.

Mae’r safle a ffefrir yn eiddo i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ac mae gan y Cyngor gytundeb mewn egwyddor i brynu’r tir, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio. Ochr yn ochr â’r ymgynghoriad, mae’r Cyngor â’i fryd ar gael caniatâd cynllunio amlinellol er mwyn prynu’r safle, a fyddai’n amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet.

Byddai dyluniad yr adeilad ysgol yn gydnaws â'r amgylchoedd. Byddai mannau agored gwyrdd yn cael eu cadw gymaint â phosibl i ddarparu ardaloedd chwarae allanol ar gyfer yr ysgol a defnydd gan y gymuned y tu allan i oriau ysgol. Byddai deunyddiau naturiol yn cael eu defnyddio ar gyfer yr adeilad ysgol hefyd lle bynnag y bo'n bosibl.

Byddai'r effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar fannau gwyrdd yn ystyriaeth fel rhan o'r broses gynllunio.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai rhywogaethau coed a llystyfiant addas i wella'r safle yn cael eu hadnabod trwy arolygon ecoleg helaeth. Byddai'r tîm dylunio'n cydweithio'n agos gyda'r ysgol hefyd i sicrhau bod sgiliau seiliedig-ar-natur yn cael eu datblygu trwy ddarpariaeth awyr agored wedi'i theilwra. Mae ysgolion a gyflawnwyd o fewn Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi creu ardaloedd natur â phyllau, gwestai pryfed a phlanhigion fel rhan o'u mannau dysgu yn yr awyr agored yn flaenorol hefyd.

Byddai'r holl opsiynau o fewn y safle yn cael eu hystyried ac yn amodol ar gais cynllunio llawn. Byddai'r caniatâd cynllunio'n amodol ar ofynion draenio cynaliadwy hefyd, sy'n golygu dyluniadau helaeth ar gyfer rheoli dŵr wyneb; h.y. rhaid i gyfraddau llif dŵr ateb gofynion penodol a chael eu cyflawni trwy ddatrysiadau naturiol megis pantiau a gerddi glaw.

Traffig

Byddai'r goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith. Byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hwn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau brys. Byddai'r asesiad trafnidiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a ganfyddir.

Byddai'r asesiad trafnidiaeth hefyd yn pennu'r gofyniad am gyfleusterau danfon a chasglu ar y safle ar gyfer trefniadau cludiant i'r ysgol. Byddai hefyd yn cael ei ddefnyddio i ganfod nifer y mannau parcio ceir y byddai eu hangen ar gyfer staff.

Gan bod prynu'r safle'n ddibynnol ar allu'r Cyngor i gael caniatâd cynllunio, bydd Cais Cynllunio Amlinellol yn cael ei gyflwyno. Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgynghoriad statudol â phreswylwyr lleol. Yn gyntaf, mae'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio'n caniatáu i breswylwyr ddarparu adborth ar y dyluniad arfaethedig, yn ogystal â'r asesiad trafnidiaeth, ar gyfer y contractwr. Fe lansiwyd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ar 4 Ionawr 2021. Wedyn byddai dyluniadau terfynol yn mynd trwy'r broses gynllunio ffurfiol. Byddai preswylwyr lleol yn cael eu hysbysu ynghylch y cais cynllunio a byddent yn gallu cyflwyno adborth a fyddai'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os yw asesiad wedi canfod bod ganddynt anawsterau dwys a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddosbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy

(disgyblion oedran cynradd) a 3 milltir neu fwy (disgyblion oedran uwchradd) o gyfeiriad cartref eu rhiant a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Darperir cludiant am ddim ar gyfer 229 o ddisgyblion yn YYD ar hyn o bryd. Ar y cyfan, mae 45 o gerbydau'n gwasanaethu'r safle presennol sy'n cynnwys y canlynol:

- Mae 5 cerbyd yn darparu cludiant ar gyfer mwy na 10 disgybl;
- Mae 5 cerbyd yn darparu cludiant ar gyfer rhwng 6 a 10 disgybl; ac
- Mae 35 o gerbydau'n darparu cludiant ar gyfer 5 disgybl neu lai.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai teithio llesol yn ystyriaeth bwysig o fewn dyluniad y safle i roi cymorth i wireddu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Fel rhan o'r ddarpariaeth wynebau meddal, byddai Tîm Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif a'r contractwyr yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun teithio wedi'i ddiweddaru a fyddai'n cefnogi mesurau i gynyddu teithio llesol i'r ysgol.

**1.2 Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r ffaith bod y safle newydd arfaethedig yn agos at y ddarpariaeth bresennol. Dylai'r ysgol newydd gael ei lleoli yn y Fro Ganolog neu Orllewinol.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Mae rhai ymatebion wedi awgrymu y dylid ehangu YYD yn y Fro Orllewinol i leihau trafnidiaeth neu i'w gwneud yn haws darparu ar gyfer disgyblion sy'n byw yn y Fro Orllewinol neu Ganolog.

Un o'r safleoedd a awgrymwyd yn y Fro Orllewinol yw'r datblygiad tai newydd yn y Bont-faen, a adwaenir fel Fferm y Darren neu Clare Gardens. Ni fyddai'r safle hwn yn addas gan ei fod eisoes wedi cael ei ddyrannu i ateb y galw lleol am leoedd cynradd (cynnig y cynhelir proses ymgynghori ar wahân yn ei gylch).

Er mwyn bod llai o ddyblygu lle mae ardaloedd arbenigol yn y cwestiwn, ac er mwyn cyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb a ddyrannwyd, cynigir y bydd yr adeilad newydd yn darparu ar gyfer disgyblion cynradd yn bennaf ac y bydd adeilad presennol YYD yn darparu ar gyfer disgyblion uwchradd yn bennaf. Felly, ni fyddai codi'r adeilad yn y Fro Orllewinol yn lleihau trafnidiaeth gan na fyddai'r Cyngor yn gallu sefydlu dalgylchoedd ar wahân.

Mae hefyd yn werth nodi bod oddeutu 72% o'r disgyblion a gaiff eu cludo i YYD ar hyn o bryd yn byw ym Mhenarth, Llandochau, Sili, Dinas Powys a'r Barri.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylai'r lleoliad fod yn y Barri naill ai ar safle Coleg Caerdydd a'r Fro (five mile lane) neu fel rhan o'r Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road. Ni fyddai digon o le nac adnoddau yn y Ganolfan Dysgu a Lles arfaethedig i ddiwallu anghenion disgyblion Ysgol Y Deri. Ni fyddai'r safle'n addas i dderbyn 150 o ddisgyblion ychwanegol. Cafodd safle Coleg Caerdydd a'r Fro ar five mile lane ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o safleoedd ond fe'i diystyrwyd gan nad oedd yr ardal y gellir adeiladu arni'n ddigon mawr ar gyfer yr ehangiad arfaethedig.

Gweithiodd y Cyngor yn agos gydag arweinwyr YYD trwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig. O safbwynt rheolwyr, tybiwyd ei bod yn hanfodol bod yr adeilad

newydd yn cael ei godi'n agos at y safle presennol. Y rheswm dros hyn yw er mwyn hwyluso symudiad staff a fyddai'n gweithio ar draws y ddau safle a sicrhau arweinyddiaeth effeithiol.

Oherwydd natur arbenigol y ddarpariaeth, mae gan YYD gymhareb staff i ddisgyblion uchel. Pe bai'r adeilad newydd yn cael ei godi yn y Fro Ganolog neu Orllewinol, mae'n debygol y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar drafnidiaeth oherwydd cynnydd o ran staff yn teithio rhwng y safleoedd. Byddai hyn hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer rheoli'r ddarpariaeth yn effeithiol.

**1.3 Roedd ymatebydd yn teimlo y byddai'r safle newydd yn rhy bell o'r ddarpariaeth gyfredol. Awgrymwyd dau ddewis arall; naill ai ehangu i mewn i St Cyres trwy ei newid yn goleg chweched dosbarth yn unig neu ehangu i mewn i Ysgol Pen Y Garth trwy ei symud i'r datblygiad tai newydd yn Cosmeston.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Fe wnaeth y Cyngor ystyried ystod eang o safleoedd i gyflawni'r ehangiad arfaethedig ar gyfer YYD. Fel a nodir uchod, roedd agosrwydd at yr adeilad presennol yn ystyriaeth allweddol. Y safle arfaethedig oedd y safle agosaf a oedd ar gael i'r Cyngor a oedd yn ateb y gofynion ar gyfer y ddarpariaeth ac a oedd ar gael o fewn yr amserlenni gofynnol.

O ran ehangu Ysgol Y Deri i mewn i'r ardal sy'n gartref i Ysgol Gyfun St Cyres ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor o'r farn bod hyn yn ddull rhesymol. Mae Ysgol Gyfun St Cyres yn darparu lleoedd uwchradd cyfrwng Saesneg i ateb y galw o Benarth, Llandochau, Sili a Dinas Powys. Mae 1,234 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd o'i gymharu â chapasiti o 1,285 o ddisgyblion. Pe bai darpariaeth Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn cael ei thynnu allan o Ysgol Gyfun St Cyres, byddai'n ofynnol i'r Cyngor adleoli'r disgyblion hyn i ddarpariaeth arall. Nid oes ysgol ym Mro Morgannwg â digon o leoedd gwag i ateb y galw hwn. Byddai'r dull hwn hefyd yn atal y Cyngor rhag gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd ysgol ar gyfer addysg uwchradd cyfrwng Saesneg gan y byddai diffyg yn nifer y lleoedd a fyddai ar gael o'i gymharu â phoblogaeth y dalgylch.

O ran adleoli Ysgol Pen Y Garth, nid yw'r Cyngor o'r farn bod hyn yn opsiwn dichonadwy. Fel rhan o'r datblygiad tai arfaethedig yn Cosmeston, mae'r Cyngor i fod i gael safle 2 hectar a allai fod â lle i ysgol gynradd â 420 o leoedd. Diben y dyraniad yw cynyddu'r capasiti i ateb y galw ychwanegol sy'n deillio o'r datblygiad tai. Mae gan Ysgol Pen Y Garth eisoes gapasiti o 420 o leoedd cynradd a fyddai'n golygu nad oes unrhyw leoedd ychwanegol ar gael i ateb galw uwch.

Mae hefyd yn werth nodi nad yw'r datblygiad tai arfaethedig wedi cael caniatâd cynllunio ar hyn o bryd ac nad yw'r cytundeb A106 wedi cael ei lofnodi. Mae'r amserlenni sy'n gysylltiedig â throsglwyddo'r safle arfaethedig yn anhysbys ar hyn o bryd a allai achosi oedi sylweddol o ran ehangu YYD. Fel a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r galw am addysg arbennig eisoes wedi mynd y tu hwnt i gapasiti YYD a bydd y cyfleoedd i gynyddu'r capasiti wedi cael eu disbyddu erbyn mis Medi 2023.

**<u>Mater 2</u> – Holi a fyddai adnoddau priodol ar gael i roi'r cynnig ar waith a sut y**

**byddai'r broses bontio'n sicrhau y terfir gyn lleied â phosibl ar staff a disgyblion**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Adnoddau ariannol

Mae ehangu YYD wedi cael ei gynnwys fel rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Mae £11m wedi cael ei ddyrannu i'r cynllun hwn a ran-ariennir gan Lywodraeth Cymru. Fel ysgol arbennig, byddai 75% o'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (£8.25m) a byddai 25% yn cael ei ariannu gan y Cyngor. Mae cyfraniad y Cyngor o £2.75m wedi'i cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

Mae cynnig cyfalaf wedi cael ei gyflwyno a hwnnw'n cynnwys £700k o fewn rhaglen gyfalaf 2021/22 i roi adeilad modwlar dros dro ar waith ar safle presennol YYD i ateb galw a ragwelir cyn agor yr adeilad ysgol newydd.

Byddai'r adeilad newydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2023.

Byddai angen cyllid refeniw ychwanegol i ariannu'r ddarpariaeth.

Mae pwysau o ran costau wedi cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 gan y bydd angen cynnydd refeniw ar gyfer y disgyblion ychwanegol yn YYD. £729,000 yw'r pwysau o ran costau refeniw a gyflwynwyd ar gyfer 2021/22, a gofynnwyd am £521,000 arall ym mlwyddyn ariannol 2022/23 i gwrdd â chostau'r twf a amcangyfrifir yn nifer y disgyblion. Diben hyn fyddai derbyn cynnydd net o 26 o ddisgyblion yn 2021/22 a chynnydd net pellach o 18 o ddisgyblion yn 2022/23.

Byddai'r gyllideb refeniw ddirprwyedig ar gyfer YYD yn cynyddu yn unol â nifer y disgyblion ar y gofrestr.

Pe na bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, byddai'r Cyngor yn dibynnu ar leoliadau costus y tu allan i'r sir er mwyn diwallu anghenion dysgwyr. Mae'r holl awdurdodau cyfagos yn profi pwysau tebyg ar gapasiti sydd wedi arwain at brinder lleoliadau y tu allan i'r sir.

Adnoddau dynol ac anghenion dysgwyr

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo byddai'r Cyngor yn sefydlu tîm prosiect i gefnogi'r prosiect Byddai tîm y prosiect yn cynnwys y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles, cynrychiolwyr o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor, a chynrychiolwyr o YYD.

Byddai tîm y prosiect yn gyfrifol am ddatblygu cynllun prosiect i gyflawni'r cynnig erbyn mis Medi 2023, pan fyddai adeilad newydd YYD yn cael ei gwblhau. Byddai angen i gynllun y prosiect ystyried:

- Datblygiad y strwythur staffio;
- Rhaniad disgyblion ar draws y safleoedd;
- Rheoli derbyniadau; ac
- Adnabod yr adnoddau priodol i gyflawni'r ddarpariaeth.

Byddai'r Cyngor yn cefnogi'r staff a'r corff llywodraethu'n llawn i sicrhau bod y cynnig yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus. Cafodd y dull hwn ei fabwysiadu'n llwyddiannus i gyflawni addysg uwchradd gymysg yn y Barri fel rhan o'r prosiect Trawsnewid Addysg Uwchradd yn y Barri.

Corff llywodraethu YYD fyddai'n gyfrifol am ddatblygu strwythur staffio i gefnogi'r ddarpariaeth safle rhanedig. Byddai'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol gan y byddai angen recriwtio staff ychwanegol wrth i nifer y disgyblion ar y gofrestr gynyddu. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i strwythurau staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo angen.

Byddai'r adeilad a safle newydd arfaethedig yn ei gwneud yn bosibl mynd ati ymhellach i ddatblygu cwricwlwm sy'n llawn profiadau cyfoethog sy'n herio plant, yn codi cyrhaeddiad ac yn cefnogi lles disgyblion.

Byddai adeilad ysgol newydd YYD yn cynnwys ystafelloedd dosbarth o faint addas, prif neuadd ar gyfer chwaraeon a bwyta, swyddfeydd ar gyfer uwch aelodau o staff a staff gweinyddol, ystafell staff, ystafelloedd therapi a mannau ymneilltuo ar gyfer ymyraethau disgyblion. Byddai'r ysgol wedi'i hamgáu â ffens i ddiogelu disgyblion gyda mynediad a reolir ag intercom ar gyfer ymwelwyr. O fewn tir yr ysgol, byddai ardaloedd chwarae allanol, man chwarae amlddefnydd (MUGA) a chynefinoedd i wella lles disgyblion.

Mae'r safle arfaethedig ar gyfer yr adeilad ysgol newydd yn agos at Barc Gwledig Cosmeston a'r Pentref Canoloesol. Byddai'r parc yn darparu adnodd gwych ar gyfer staff a disgyblion i wella lles ag agweddau at ddysgu. Mae'r safle arfaethedig yn agos at y môr hefyd.

Ceir manteision addysgol posibl i ddisgyblion yn ystod y cam adeiladu gan y byddai contractwyr a benodir yn cynnal ymweliadau â'r safle a gweithdai gyda disgyblion. Er enghraifft, ar brosiect blaenorol cynhaliwyd gwers Saesneg ar y safle ac fe ysgrifennodd disgyblion gerddi am eu profiadau. Byddai gweithdai addas ar gyfer cyfnodau allweddol perthnasol yn cael eu cynnal gyda'r disgyblion. Hefyd, byddai'r prosiect yn cyfranogi yn y rhaglen llysgenhadon adeiladu, sy'n galluogi disgyblion i gael hyder a sgiliau trwy ddysgu mwy am adeiladu a rhoi diweddariadau i'w cyfoedion am y cynnydd ar y safle.

I weld enghreifftiau, ewch at ein tudalen we ar fanteision cymunedol:
**https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/schools_in_the_vale/21st-Century-Schools/21st-Century-Schools-Community-Benefits.aspx**

**Mater 3 – Holodd Estyn beth fyddai'r goblygiadau o ran costau cludo pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.**

Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os yw asesiad wedi canfod bod ganddynt anawsterau dwys a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddosbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) a 3 milltir neu fwy (disgyblion oedran uwchradd) o gyfeiriad cartref eu rhiant a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Darperir cludiant am ddim ar gyfer 229 o ddisgyblion yn YYD ar hyn o bryd. Ar y cyfan, mae 45 o gerbydau'n gwasanaethu'r safle presennol sy'n cynnwys y canlynol:

- Mae 5 cerbyd yn darparu cludiant ar gyfer mwy na 10 disgybl;
- Mae 5 cerbyd yn darparu cludiant ar gyfer rhwng 6 a 10 disgybl; ac
- Mae 35 o gerbydau'n darparu cludiant ar gyfer 5 disgybl neu lai.

Rhagwelir y bydd y Cyngor yn gwario £1,534,049 yn 2020/21 ar gludiant i'r ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY. Nid yw'n bosibl rhagfynegi'r costau ychwanegol ar hyn o bryd gan y byddant yn ddibynnol ar anghenion a lleoliadau'r disgyblion unigol. Byddai'r costau cludiant yn cynyddu bob yn dipyn wrth i nifer y disgyblion ar y gofrestr gynyddu o un flwyddyn i'r llall. Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb refeniw byddai pwysau o ran costau'n cael eu cyflwyno i gwrdd â'r gost uwch hon. Pe na bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai'r Cyngor yn ddibynnol ar leoliadau costus y tu allan i'r sir, a fyddai'n cynnwys cludiant.

**<u>Mater 4</u> – Holodd y Llywodraethwyr a fydd y cynnig yn cynyddu capasiti YYD i 355 (h.y. 205 + 150) ynteu a fydd darparu 150 o leoedd yn ychwanegol at y nifer sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd?**

Y dull a ffefrir yw codi adeilad ysgol newydd ar safle ar wahân a fyddai'n rhan o YYD. Disgyblion o oedran cynradd fyddai'n mynychu'r adeilad ysgol ychwanegol yn bennaf. Fodd bynnag, byddai'r ysgol yn gweithredu dull seiliedig ar anghenion i bennu rhaniad disgyblion ar draws y ddau safle. Byddai hyn yn lleihau'r angen i ddyblygu'r holl gyfleusterau sydd ar gael yn YYD ar hyn o bryd.

Byddai adeilad ysgol newydd YYD o faint addas ar gyfer 150 o ddisgyblion. Byddai angen i ddyluniad yr adeilad ddarparu digon o le ar gyfer staff hefyd, gan gynnwys staff iechyd a chymorth, sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion disgyblion yn y ffordd orau bosibl.

Byddai'r adeilad yn cynnwys ystafelloedd dosbarth o faint addas, prif neuadd ar gyfer chwaraeon a bwyta, swyddfeydd ar gyfer uwch aelodau o staff a staff gweinyddol, ystafell staff, ystafelloedd therapi a mannau ymneilltuo ar gyfer ymyraethau disgyblion. Byddai'r ysgol wedi'i hamgáu â ffens i ddiogelu disgyblion gyda mynediad a reolir ag intercom ar gyfer ymwelwyr. O fewn tir yr ysgol, byddai ardaloedd chwarae allanol, man chwarae amlddefnydd (MUGA) a chynefinoedd i wella lles disgyblion.

Byddai'r safle arfaethedig hefyd yn darparu digon o le i ehangu yn y dyfodol pe bai angen. Byddai hyn yn cael ei gynnwys yng nghynllun y safle ar y cyfan.

Byddai'r cynnig yn arwain at gapasiti newydd o 355 o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'r adeilad presennol wedi cael ei addasu i wneud lle i nifer fwy o ddisgyblion i ateb galw uwch dros y blynyddoedd. Byddai'r adeilad newydd arfaethedig yn lleihau nifer y disgyblion sy'n mynychu adeilad presennol YYD fel ei fod islaw'r capasiti o 205. Fodd bynnag, byddai angen ystyried capasiti yn y dyfodol yng ngoleuni anghenion y disgyblion ar y gofrestr a gwneud unrhyw addasiadau i wneud lle i nifer fwy o ddisgyblion.

Mae'r Cyngor yn cynnig dull holistaidd o ateb y galw yn y dyfodol trwy ddarparu capasiti ychwanegol yn YYD, yn ogystal â chanolfannau adnoddau arbenigol ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd ledled y Fro i gefnogi dysgwyr a wasanaethir yn well trwy gael mynediad at addysg brif ffrwd gyda mwy o gymorth. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw gan hefyd roi amrywiaeth o ddarpariaeth i ateb anghenion unigol ein dysgwyr yn y ffordd orau.

**<u>Mater 5</u> – Roedd ymatebydd yn anghytuno ag amseriad y cynnig gan nad oedd penderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch y datblygiad tai.**

Fel a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r galw am addysg arbennig eisoes wedi mynd y tu hwnt i gapasiti YYD. Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i ystod eang o safleoedd i gyflawni'r ehangiad arfaethedig i YYD. Roedd agosrwydd at yr adeilad presennol yn ystyriaeth allweddol. Y safle arfaethedig oedd y safle agosaf a oedd ar gael i'r Cyngor a oedd yn ateb y gofynion ar gyfer y ddarpariaeth ac a oedd ar gael o fewn yr amserlenni gofynnol.

Mae angen ehangu YYD ni waeth a yw'r datblygiad tai yn mynd yn ei flaen ai peidio.

Mae'r safle datblygu yn Fferm Cosmeston Uchaf wedi'i gynnwys fel dyraniad yn y CDLl mabwysiedig ac ystyrir bod datblygiad preswyl ar y tir hwn yn briodol mewn egwyddor sy'n rhoi elfen o sicrwydd y bydd y tir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y CDLl. Y rheswm dros hyn yw bod rhan o'r broses i ddyrannu safle mewn CDLl yn cynnwys ystyried a ellir ei gyflawni ac a yw'n hyfyw yn ariannol i gael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y CDLl; o ganlyniad, gan bod y safle wedi'i ddyrannu yn y Cynllun mae wedi llwyddo yn y profion hyn. Ar ben hynny, mae cais cynllunio ar gyfer caniatâd amlinellol wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd (cyfeirnod 2020/01170/OUT). Mae hyn yn arwydd pellach bod y safle'n hyfyw gyda datblygwr yn neilltuo adnoddau i fynd ar drywydd caniatâd cynllunio ar y safle sy'n cynyddu'r sicrwydd y bydd y dyraniad tai yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun.

**<u>Mater 6</u> – Roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r syniad bod disgyblion awtistig yn mynychu'r un ddarpariaeth â disgyblion ag anableddau corfforol a meddyliol.**

Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo bod gan ddisgyblion awtistig eu hanghenion eu hunain a bod arnynt angen eu cynorthwywyr addysgu eu hunain. Penderfynodd ymatebwyr na allai'r cynnig fod wedi cael ei lunio gyda mewnbwn arbenigwyr addysgol gan bod awdurdodau lleol eraill yn gwahanu darpariaeth awtistiaeth ac felly rhaid mai oherwydd anghenion biwrocrataidd ac nid addysgol y mae unrhyw ddarpariaeth drosfwaol yn cael ei chynnig.

Agorodd YYD yn 2014 yn dilyn uno Ysgol Erw'r Delyn, Ysgol Maes Dyfan ac Ysgol Ashgrove. Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu YYD ystod eang o anghenion, sy'n cynnwys awtistiaeth, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae uno'r tair ysgol hyn wedi profi'n hynod lwyddiannus, ac mae disgyblion a staff wedi cael budd o rannu arbenigedd ar draws disgyblaethau. Mae'r holl ddisgyblion yn cael eu hasesu fel unigolion ac yn cael mynediad at ddarpariaeth

sy’n seiliedig ar eu hanghenion unigol, sy’n eu galluogi i ffynnu beth bynnag fo’u hanawsterau.

Ystyrir yn eang gan randdeiliaid yr ysgol bod YYD yn ysgol lwyddiannus a barnodd Estyn fod yr ysgol yn “Dda” neu’n “Rhagorol” ar draws pob mesur yn eu harolygiad diweddaraf.

Bu’r Cyngor yn cydweithio’n agos gydag arweinwyr YYD trwy gydol y broses o ddatblygu’r cynnig. Mae hefyd yn werth nodi bod corff llywodraethu ac athrawon YYD wedi nodi yn eu hymatebion i’r ymgynghoriad eu bod yn llwyr gefnogol i’r cynnig.

**<u>Mater 7</u> – Roedd ymatebydd yn anghytuno ag C11 yn yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned**.

Roedd yr ymatebydd yn teimlo na ddylai C11 “Mae plant sy’n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol” gael sgôr o +3 gan y bydd angen cludiant ar ddisgyblion.

Rhoddir y sgôr gan farnu a oes digon o leoedd i ddisgyblion yn y dalgylch. Gan mai’r Fro gyfan yw dalgylch YYD ac y byddai’r cynnig hwn yn cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion ac yn lleihau’r ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i’r Sir, y farn o hyd yw bod y sgôr yn briodol.

Rhoddir sylw i gludiant dan C18 lle cydnabyddir y byddai’r cynnig yn arwain at fwy o drafnidiaeth.

## Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig.

Mae'r adran hon yn darparu'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rhai a oedd o blaid y cynnig. Mae'r canlynol yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid yw'n gynhwysfawr nac wedi'i fwriadu i fod yn gofnod gair-am-air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i Aelodau'r Cabinet.

**Sylw 1**

**Yn cytuno â chynyddu'r cymorth arbenigol sydd ar gael i ddisgyblion ADY.**

Roedd ymatebwyr yn cytuno bod angen cynyddu darpariaeth addysgol arbenigol yn y Fro. Amlygodd ymatebwyr y ffaith bod YYD ar hyn o bryd yn gweithredu ymhell uwchlaw ei chapasiti.

Bydd ehangu YYD yn galluogi mwy o ddisgyblion i gael budd o'r ddarpariaeth ragorol yn yr ysgol. Nododd ymatebwyr hefyd y byddai'n lleihau'r pwysau ar gyfleusterau presennol yn YYD, gan ei gwneud yn bosibl defnyddio ystafelloedd arbenigol fel a fwriadwyd yn lle fel ystafelloedd dosbarth dros dro.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn croesawu'r math hwn o ddarpariaeth.

**Sylw 2**

**Mae YYD yn rhoi darpariaeth addysgol o ansawdd da a chymorth gofalgar i rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed. YYD yw'r corff mwyaf priodol i reoli darpariaeth gynyddol.**

Fe wnaeth ymatebwyr nodi'r ddarpariaeth ragorol yn YYD ac roeddent yn croesawu ehangu'r ysgol dan y rheolaeth bresennol. Roedd ymatebwyr yn canu clodydd staff ac uwch arweinwyr am eu hymrwymiad i roi cymorth i ddisgyblion i gyflawni'r deilliannau addysgol gorau posibl ac i baratoi disgyblion ar gyfer bywyd yn ddiweddarach yn eu hoes trwy ddatblygu sgiliau hanfodol a rhoi cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith.

**Sylw 3**

**Mae'r dewis o safle'n briodol.**

Mae ymatebwyr yn nodi y byddai agosrwydd y safle at ddarpariaeth bresennol YYD yn golygu bod adnoddau a staff, gan gynnwys staff iechyd a chymorth, yn gallu cael eu rhannu ar draws y ddau safle. Rhaid sicrhau hyn er mwyn cynnal gweithrediad effeithiol yr ysgol o ddydd i ddydd.

Byddai'r safle hefyd yn darparu lleoliad delfrydol a diogel ar gyfer disgyblion agored i niwed. Mae lleoliad y safle hefyd yn agos at Cosmeston gan roi'r cyfle i ddisgyblion brofi dysgu rhagorol yn yr awyr agored, cael ymarfer corff hanfodol ac ymweliadau lles.

**Sylw 4**

**Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.**

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod YYD yn rhan bwysig o'r gymuned leol, gan gynnwys trwy ddarparu cyfleusterau lleol, ac felly roeddent o'r farn bod ei hehangu'n rhywbeth cadarnhaol. Nododd ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig wn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth leol.

## Atodiad C – Cwestiynau cyffredin.

Mae’r adran hon yn darparu cwestiynau cyffredin wedi’u diweddaru mewn perthynas â’r cynnig.

***Beth yw graddfa amser fwriadedig y datblygiad?***
Y bwriad yw y byddai’r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith erbyn mis Medi 2023. Byddai gwaith i adeiladu’r ysgol newydd yn dechrau erbyn mis Ionawr 2022 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Awst 2023.

***Sut fyddai goblygiadau posibl ar gyfer cludiant yn cael eu hystyried fel rhan o’r cynnig hwn?***
Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor fyddai’n gyfrifol am y broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi a byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o’r broses ddylunio. Byddai unrhyw oblygiadau a gâi eu hadnabod yn cael eu hystyried yn nyluniad yr adeilad newydd. Byddai’r contractwr yn cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr adeilad newydd.

***Pwy fyddai’n rheoli’r broses o adeiladu’r adeilad ysgol newydd?***
Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor fyddai’n gyfrifol am reoli’r broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Fframwaith adeiladu yw SEWSCAP a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau lleol ac sy’n darparu Contractwyr sydd wedi cyn-gymhwyso ac sydd â phrofiad addas i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy’n gysylltiedig â phrosiectau i godi adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladau presennol y mae eu gwerth yn fwy nag £1.5 miliwn. Byddai rhaglen ymgysylltu’n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch y cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i’r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a’r ysgol.

***Sut fyddem ni’n cael ein cynnwys trwy gydol y broses ddylunio?***
Byddai rhaglen ymgysylltu’n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i’r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a’r ysgol. Gellir anfon unrhyw adborth neu feddyliau at Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn:
**21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk**

## Atodiad D – Ymateb gan Estyn

### Ymateb Estyn i'r cynnig i ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol y Deri Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn darparu eu barn dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd a gwybodaeth ychwanegol megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortiwm Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion yn y cais.

### Crynodeb/ Casgliad

Cynnig gan Gyngor Bro Morgannwg yw hwn. Mae'r cynnig yn un i:
- Gynyddu capasiti Ysgol Y Deri i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a
- chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth Ysgol Y Deri.

Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn annhebygol o gael effaith negyddol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

### Disgrifiad a'r manteision

Mae'r Cyngor yn cyflwyno rhesymeg eglur dros y cynnig. Ei ddiben yw ateb y galw uwch am addysg arbennig ym Mro Morgannwg. Codwyd Ysgol Y Deri fel bod lle i 205 o ddisgyblion ond ma 262 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r amcanestyniadau cyfredol yn dynodi y bydd ar fwy o ddisgyblion angen lle yn yr ysgol dros y blynyddoedd nesaf a bod y duedd hon yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld.

Mae'r Cyngor wedi nodi mewn modd priodol beth yw manteision disgwyliedig rhoi'r cynnig ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i ateb y galw rhagamcanol am leoedd mewn ysgol arbennig. Hefyd, manteision adeilad ysgol newydd a all gynnwys darparu amgylchedd dysgu arloesol a chreadigol. Hefyd, mae'n sôn am y fantais na fydd y Cyngor yn dibynnu ar leoliadau costus y tu allan i ardal y Cyngor er na nodir beth yw'r costau ar hyn o bryd. Dim ond un anfantais y mae'r Cyngor yn ei nodi, sef amharu ar staff ac adnoddau wrth i'r cynnig gael ei roi ar waith.

Mae'r Cyngor wedi darparu tabl sy'n cyflwyno dwy risg a'r mesurau lliniaru a gynigir i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Mae'r risgiau'n ymwneud ag angen am gapasiti ychwanegol y tu hwnt i'r cynnydd arfaethedig a materion o ran rheoli traffig ar y

safle. Mae'r mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r risgiau hyn i'w gweld yn rhesymol ac yn ddilys.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno tri dewis arall yn lle'r cynnig y maent hwy wedi'u hystyried. Y dewisiadau eraill hyn yw ehangu'r ysgol ar ei safle presennol, ehangu'r ysgol ar safle gwahanol neu sefydlu ysgol arbennig newydd gyda threfniadau llywodraethu ar wahân. Mae rhesymau'r Cyngor dros ddiystyru'r dewisiadau eraill hyn i'w gweld yn addas.

Mae'r safle arfaethedig dair milltir i ffwrdd o'r ysgol. Mae'r Cyngor wedi nodi ei bolisi i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal â'r rhai ag anghenion difrifol neu gymhleth ac sy'n mynychu ysgol arbennig. Hefyd, dywed y Cyngor y byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Mae'n ystyried y byddai hwn yn cael ei ddefnyddio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a ganfyddir. Ymddengys fod hwn yn ddull rhesymol. Fodd bynnag, ni nodir beth fyddai'r costau cludiant uwch i'r Cyngor pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith.

Mae'r Cyngor yn nodi'n gywir nad oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd eraill ym Mro Morgannwg. Ysgol Y Deri yw'r unig ysgol arbennig yn yr awdurdod ac mae'r holl dderbyniadau i'r ysgol yn seiliedig ar asesiad o anghenion disgyblion unigol. Disgwylir y bydd y cynnig yn ateb y galw disgwyliedig am leoedd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi gwneud sylwadau ar ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ac yn nodi y bydd y dysgu a'r addysgu'n parhau i gael eu darparu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf ac y byddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael pan fo angen. Byddai hyn yn cael ei ddarparu gan Gynorthwywyr Cymorth Dysgu dwyieithog a gyflogir gan Ysgol Y Deri fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae'r cynigydd wedi cynnwys asesiad addas o'r effaith ar y gymuned fel rhan o'r cynnig. Mae'n asesu'r effaith ar y gymuned leol yn erbyn wyth mesur allweddol. Ei ganfyddiadau yw y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar 6 o'r 8 mesur a aseswyd ac effaith negyddol ar 2 o'r mesurau hyn. Mae'r effaith negyddol yn debygol o fod ar yr agweddau sy'n ymwneud â'r seilwaith lleol a threfniadau cludiant. Mae'r Cyngor wedi nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r effaith negyddol hon ac yn dod i'r casgliad, ar y cyfan, y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar ansawdd deilliannau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Er mwyn gwneud hyn, fe gyflwynodd y Cyngor ddogfen ar wahân i gyflwyno amrywiaeth o wybodaeth yr oedd wedi'i choladu am yr ysgol. Roedd yr wybodaeth hon yn cynnwys yr adroddiad arolygu diweddaraf gan Estyn, yr adroddiad ar gategoreiddio'r ysgol fel rhan o'r system genedlaethol, ac asesiadau mewnol o gyflwr ac addasrwydd yr adeilad. Ymhlith y manteision a nodwyd, mae'r Cyngor yn awgrymu bod profiadau gwell o ran dysgu yn yr awyr agored gan bod y safle arfaethedig yn agos at Barc Gwledig Cosmeston a'r Pentref Canoloesol. Hefyd, mae'r Cyngor yn awgrymu manteision addysgol posibl yn ystod y cam adeiladu gan y byddai'n cyfranogi yn y rhaglen llysgenhadon

adeiladu, sy’n galluogi disgyblion i fagu hyder ac ennill sgiliau trwy ddysgu mwy am adeiladu a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’w cyfoedion am gynnydd ar y safle.

Barnwyd fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol yn arolygiad diwethaf yr ysgol gan Estyn yn 2016 ac mae’r Cyngor yn bwriadu i’r arweinyddiaeth hon barhau yn dilyn datblygu’r safle newydd.

Mae’r cynnig yn bwriadu cynyddu capasiti Ysgol Y Deri, unig ysgol arbennig y Cyngor sy’n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Y rheswm dros hyn yw er mwyn ateb y galw rhagamcanol am addysg arbennig. Mae’r cynnig hwn yn disgwyl darparu 150 o leoedd ychwanegol i helpu i ateb y galw yn y dyfodol.

## Atodiad E – Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynnig

**Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT**

Mae'r recordiad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant (10 Rhagfyr 2020) ar gael yma:
**https://www.youtube.com/watch?v=1zGCESVsWYQ&feature=youtu.be**

**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020.**

268 CYNNIG I GYNYDDU CAPASITI YSGOL Y DERI I ATEB Y GALW AM ADDYSG ARBENNIG YM MRO MORGANNWG YN Y DYFODOL (CYF) -

Roedd y Cabinet, ar 2 Tachwedd 2020, wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ateb y galw am addysg arbennig ym Mro Morgannwg yn y dyfodol trwy:
- Gynyddu capasiti Ysgol Y Deri i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth Ysgol Y Deri.

Roedd y Cabinet hefyd wedi penderfynu atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor i gael ei ystyried fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

Fe wnaeth Rheolwr Prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif gyflwyno'r adroddiad a hysbysu y byddai'r cynnig yn arwain at 150 o leoedd ychwanegol yn Ysgol Y Deri i ateb y galw uwch am addysg arbennig ym Mro Morgannwg, ac y byddai adeilad newydd a fyddai'n gweithredu dan reolaeth Ysgol Y Deri yn cael ei godi ar safle ysgol newydd yn Cosmeston, Penarth, i wneud lle i'r capasiti uwch.

Hysbysodd y Swyddog hefyd, er bod y cynnig yn golygu y byddai adeilad ysgol newydd yn barod erbyn mis Medi 2023, y byddai ffrydiau 2021 a 2022 yn golygu cynnydd net o 44 o ddisgyblion yn yr ysgol, ac felly roedd yr adroddiad yn nodi'r mesurau dros dro a fyddai'n ofynnol i sicrhau bod Ysgol Y Deri yn gallu ateb y galw rhagamcanol yn y cyfamser. Roedd yr ymgynghoriad, a oedd yn cael ei gynnal trwy ddogfen ymgynghori ac yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, wedi cael ei lansio ar 6 Tachwedd ac roedd yn dod i ben ar 20 Rhagfyr. Hysbysodd y Swyddog fod 96 o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dod i law hyd yma, a bod 86 ohonynt wedi bod o blaid y cynnig, un heb gynnig barn am y cynnig ac wyth yn rhai nad oeddent o blaid. Roedd y prif bryderon a godwyd wedi bod yn gysylltiedig ag effaith traffig a lleoliad yr adeilad newydd arfaethedig, a dywedodd y Swyddog y byddai'r Cyngor yn ymateb i'r pryderon hyn fel rhan o'r adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad; fodd bynnag, dylid nodi mai diben yr ymgynghoriad hwn oedd cael adborth ar effaith addysgol y cynnig, ac y byddai angen ymdrin â rhai o'r pryderon a godwyd trwy brosesau statudol eraill.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd S.D. Perkes hysbysodd Swyddogion nad oedd union nifer y disgyblion o oedran cynradd sy'n mynychu Ysgol Y Deri wrth law ganddynt; fodd bynnag fe wnaethant gadarnhau y byddent yn anfon yr wybodaeth hon ymlaen at y Cynghorwyr yn dilyn y cyfarfod. Cydnabu'r Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles, gyda'r sector Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n tyfu, mai yn y blynyddoedd cynnar yr oedd y pwysau mwyaf. Nododd y Cynghorydd N.C. Thomas fod y trefniadau gwell ar gyfer adnabod disgyblion ag ADY yn golygu y byddai'r angen am ddarpariaeth o'r fath yn parhau i dyfu, a'i fod felly'n croesawu'r cynnig.

Ac yntau wedi cael caniatâd i siarad, diolchodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio i'r Aelodau am eu sylwadau a dywedodd ei fod yn dymuno canmol y gwaith a oedd wedi cael ei wneud gan Swyddogion i sicrhau bod pob plentyn yn y Fro yn gallu bod y gorau y gall fod. Amlygodd yr Aelod Cabinet ei fod yn achos pryder y byddai cymaint o oralw am ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ymhen dwy flynedd, ac roedd hi felly wrth ei bodd bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor ac wedi cael cefnogaeth mor dda. Fe wnaeth y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles adleisio gwerthfawrogiad yr Aelod Cabinet, gan nodi er na fyddai 44 o ddisgyblion ychwanegol mewn lleoliad prif ffrwd yn ymddangos yn sylweddol, nad oedd yn gynnydd y gallai Ysgol Y Deri ddygymod ag ef ar ei ffurf bresennol.

Mynegodd y Cadeirydd fod taer angen yr ysgol loeren a dywedodd ei fod yn hapus gyda'r cynnig; fodd bynnag, cyfeiriodd at gyfarfod diweddaraf y Cyngor Llawn, lle codwyd pryderon ynghylch cyllid ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig mewn perthynas â chyllid a ddyrennir i Ysgol Gynradd Sili, ac er ei fod yn cydnabod bod y drafodaeth gyfredol yn ymwneud ag effaith addysgol y cynnig yn unig, dywedodd ei fod yn deall y pryderon a godwyd ac yn gobeithio bod ffordd y gallai'r Gyfarwyddiaeth fwrw ymlaen â'r cynnig gan sicrhau hefyd bod Ysgol Gynradd Sili hithau'n cael gofal da. A hithau wedi cael caniatâd i siarad, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei bod yn dymuno egluro bod cynlluniau a chynigion i ddatblygu a buddsoddi yn Ysgol Gynradd Sili, ac roedd yn awyddus i sicrhau'r Aelodau nad oedd gofyn iddynt wneud dewis pa un a fyddai un ysgol yn cael cyllid neu gymorth ar draul y llall.

Ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r cynnig

ARGYMHELLWYD – FOD y Pwyllgor Craffu'n cymeradwyo'r penderfyniadau a oedd wedi'u cynnwys yn yr atgyfeiriad gan y Cabinet dyddiedig 2 Tachwedd (Cofnod Rhif C358).

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ynghylch y cynnig fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

## Atodiad F – Ymateb oddi wrth gorff llywodraethu Ysgol Y Deri

14 Rhagfyr 2020

**Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y Fro trwy**:

- **Gynyddu capasiti Ysgol Y Deri i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a**
- **Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth Ysgol Y Deri.**

Eich Enw Llawn: *B T Exell ar ran y Corff Llywodraethu*
Cod Post: CF64 2TP
Dywedwch wrthym ym mha gymhwyster yr ydych yn ymateb
Llywodraethwr* **X**

* A fyddech cystal â chadarnhau â pha ysgol(ion) yr ydych yn gysylltiedig:
*Ysgol Y Deri*

1. 1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbennig trwy:

- Gynyddu capasiti Ysgol Y Deri i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth Ysgol Y Deri.

(Nodwch eich ymateb isod)

Ydw **X**
Nac ydw
<u>Eglurwch pam:</u>

*Meddyliwyd am Ysgol Y Deri ac fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol i fod â lle i 205 o ddisgyblion o bob oed. Bu cymaint o alw am ddarpariaeth addysgol arbenigol fel bod 275 ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd gyda'r amcanestyniadau'n dynodi'r angen am oddeutu 50 o leoedd ychwanegol erbyn y bydd yr ysgol arfaethedig wedi'i chwblhau. Mae'n debygol y bydd y galw hwn yn parhau hyd y gellir rhagweld. Cydnabuwyd fod angen lle a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer y disgyblion hyn, ac i ateb y galw hwn, cafodd Ysgol Tŷ Deri ei hailbwrpasu i ddarparu cyfleusterau addysgu ychwanegol. Nid oes mwy o hyblygrwydd ar safle'r ysgol bellach. Mae'r Llywodraethwyr yn croesawu'r cynnig i roi darpariaeth fodwlar dros dro yn y tymor byr i wneud lle i niferoedd y disgyblion a ragamcanir nes bydd yr ysgol newydd wedi'i chwblhau.*

*Byddai'r Llywodraethwyr yn croesawu eglurhad a yw'r cynnig yn un i gynyddu capasiti YYD i 355 h.y. 205 + 150 ynteu a yw'n un i ychwanegu 150 o leoedd at y nifer sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd.*

*Mae'r safle arfaethedig yn Cosmeston yn cynnig mantais sylweddol o ran ei agosrwydd at YYD. Bydd hyn yn galluogi defnydd o'r cyfleusterau arbenigol na fyddant ar gael yn yr ysgol newydd i fod o fewn pellter rhwydd. Yn yr un modd, bydd yn ei gwneud yn bosibl cyfnewid staff lle y bo angen heb ormod o deithio o ran amser a phellter.*

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.

*O ystyried y galw cynyddol am ddarpariaeth addysgol arbenigol, a welir ledled Cymru, mae'n bwysig bod yr ysgol arfaethedig nid yn unig yn darparu ar gyfer y 150 o ddisgyblion, ond y rhoddir ystyriaeth hefyd i'r amcanestyniadau ar gyfer y sector Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd gan y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau. Mae angen i'r adeilad arfaethedig ddarparu nid dim ond ar gyfer y 150 o ddisgyblion ond mae angen rhywfaint o hyblygrwydd o fewn y safle hefyd pe bai'r galw, rhyw ddiwrnod, yn fwy na'r ddarpariaeth.*

3. Unrhyw sylwadau eraill?

*Cydnabyddir bod safonau yn yr ysgol yn dda iawn a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da neu ragorol mewn perthynas â'u mannau cychwyn isel ac anghenion dysgu ychwanegol. I gyflawni hyn mae YYD wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i ddatblygu'r timau dysgu ac addysgu rhagorol. Er y bydd nifer o staff yn trosglwyddo i'r ysgol newydd yn anffodus, nid oes "coeden hud" y bydd y staff ychwanegol yn ymddangos ohoni. Rhaid cydnabod, er mwyn staffio'r ddarpariaeth newydd, y bydd angen penodi staff cyn ei bod yn agor. Bydd hyn yn galluogi'r staff newydd i fod â'r un ethos ac ansawdd ag a welir yn YYD ar hyn o bryd.*

*Er bod adeilad YYD wedi cael ei godi i safon fanwl, fe ddysgwyd gwersi dros y pedair blynedd ddiwethaf y gellid eu defnyddio i wella'r adeilad ar y safle newydd. Mae'n bwysig bod yr wybodaeth hon yn cael ei hymgorffori yn yr adeilad newydd i sicrhau lles disgyblion a staff. Yn yr un modd, o ystyried y newidiadau a gynigir i'r cwricwlwm, rhaid i'r amgylchedd dysgu gael ei ddylunio mewn modd sy'n ymgorffori'r gwelliannau sy'n angenrheidiol i ddarparu amgylchedd dysgu ar gyfer yr 21ain ganrif. I gyflawni hyn rhaid gwneud darpariaeth i secondio rheolwyr fel eu bod yn gallu neilltuo'r amser angenrheidiol i'r Prosiect.*

*Mae llwyddiant YYD i'w briodoli nid dim ond i'r staff dysgu ac addysgu a gweinyddol ond hefyd i'r gefnogaeth a roddir gan y Bwrdd Iechyd trwy'r timau nyrsio a therapi. Mae'n bwysig bod cydweithio agos gyda'r Bwrdd Iechyd ar lefel yr Awdurdod i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i'r ysgol newydd.*

*Mae'r Llywodraethwyr yn cydnabod bod mynd ati'n barhaus i ehangu maint y ddarpariaeth y mae'n ei rheoli'n codi heriau a risgiau, a byddent yn gobeithio nad yw'r rhain yn effeithio'n anffafriol ar ansawdd yr addysg y mae'r disgyblion yn ei chael ar hyn o bryd. Yn yr un modd, rhaid nad yw ansawdd yr arweinyddiaeth sy'n bodoli yn YYD ar hyn o bryd yn cael ei wanhau. O ystyried natur hynod gymhleth YYD, gosodir lefel enfawr o gyfrifoldeb ar yr arweinwyr, staff a'r corff llywodraethu i reoli. Mae angen ystyried hyn yn fanwl. Mae'r Corff Llywodraethu hefyd yn disgwyl i'r Awdurdod gydnabod a chymeradwyo ehangiad cynnar y tîm arwain i symud yr ehangiad hwn yn ei flaen. Nid yw'n dymuno bod yn y sefyllfa a brofwyd bum*

*mlynedd yn ôl lle'r oedd disgwyl i'r tîm arwain reoli tair ysgol ac adeiladu pedwaredd un. Heddiw bydd pwysau i reoli YYD, gan roi'r cynnig ar gyfer Y Daith, Gladstone a'r Gwasanaeth Cymorth ar waith ar yr un pryd a hefyd goruchwylio'r gwaith o adeiladu a darparu adnoddau ar gyfer yr Ysgol Gynradd newydd.*

*Yn olaf, mae'r Corff Llywodraethu'n cydnabod y pwysau cyllidebol bythol gynyddol a achosir gan Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gobeithio bod y costau cyfalaf a refeniw wedi cael eu cyfrifo'n briodol.*



*B T Exell MBE*
*Cadeirydd y Llywodraethwyr*

## Atodiad G – Ymateb oddi wrth Gyngor Tref Penarth

*Mae'r safle arfaethedig ar gyfer Ysgol Y Deri ar bwys y datblygiad tai arfaethedig yn Fferm Cosmeston Uchaf. Mae cais amlinellol am ganiatâd cynllunio wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar ar gyfer datblygiad a fydd yn cyrraedd safonau ynni gweithredol sero net ac a fydd yn mabwysiadu ac yn llywio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a 'Creu Mannau Cynaliadwy', gan ystyried holl elfennau 'Dylunio Da' ac egwyddorion 'Llwybr at Ddylunio Da' a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 12 (2016).*

*Byddem yn disgwyl i'r estyniad arfaethedig i Ysgol Y Deri gyrraedd yr un safon o ran dylunio da.*

*Mae'r Cyngor Tref yn cefnogi'r ddarpariaeth addysgol a gynigir ac mae ein sylwadau canlynol yn ymwneud â'r union leoliad a ddewiswyd. Heb os, ceir rhai synergeddau addysgol, fel y rhai sydd wedi'u hymgorffori ar safle St Cyres lle nad oes atalfa fewnol rhwng y ddwy ysgol.*

*Ceir rhai effeithiau hefyd. Mae'n debygol y bydd disgyblion yn cyrraedd mewn ceir neu ar gludiant arbennig o'r dalgylch ehangach gyda thagfeydd a materion rheoli traffig o ganlyniad. Bydd hyn yn ymwneud â'r mynediad newydd oddi ar Ffordd Larnog i ddyraniad y CDLl i'r gogledd o Fferm Cosmeston Uchaf (y safle Ysgol anarbenigol), a'r mynediad presennol, Fort Road. Bydd mynediad yn y tymor byr o leiaf oddi ar Fort Road fel ar hyn o bryd.*

*Bydd angen ystyried y materion hyn mewn Asesiad a gynhwysir gyda'r cais cynllunio ar gyfer adeilad arfaethedig Ysgol Y Deri. Bydd angen i'r ddarpariaeth ar gyfer teithio llesol ar droed neu ar feic yn yr ardal uniongyrchol ar hyd Ffordd Larnog, sy'n llwybr teithio llesol, gael ei gwella ac efallai y bydd angen rhywfaint o wahanu rhwng beiciau a cherddwyr.*